




Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Canol Trefi



Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau ychwanegol ar Gynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi, yn enwedig mewn perthynas â'r Rhaglen Trawsnewid Trefi.

Awst 2023


Cynnwys

1	Beth yw Creu Lleoedd?	01
2	Creu lleoedd a chanol trefi	03
3	Pam paratoi Cynllun Creu Lleoedd?	05
4	Beth yw Cynllun Creu Lleoedd?	07
5	Proses	08
6	Cynnwys a strwythur	10
	Atoddiadau	15

1. Beth yw Creu Lleoedd?

Mae creu lleoedd yn ffordd o sicrhau bod unrhyw newid, buddsoddiad neu ddatblygiad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r amgylchedd lle rydyn ni'n byw, yn gweithio ac yn chwarae. Mae'n rhoi pobl wrth galon y broses ac yn arwain at leoedd sy'n fywiog, sydd â hunaniaeth glir a lle gall pobl ddatblygu ymdeimlad o berthyn. Mae mabwysiadu dull creu lleoedd yng nghanol tref yn golygu ystyried canol y dref yng nghyd-destun y rhanbarth a'r anheddiad ehangach, ac edrych yn gyfannol ar yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella fel lle.

- Defnyddiau tir
- Llif cerddwyr
- Patrymau ymddygiad
- Sŵn ac arogl
- Llif cerbydau



- Treflun
- Ffurf adeiledig
- Hydreiddedd
- Tirwedd
- Dodrefn

- Eglurder
- Cymdeithasau diwylliannol
- Swyddogaethau canfyddedig, atyniadau
- Asesiadau ansoddol

Mae creu lleoedd yn ystyried y gweithgarwch a'r ystyr sy'n gysylltiedig â lle yn ogystal â'i adeiladwaith ffisegol. Y nod yw helpu i hyrwyddo lleoedd egniol a nodedig sy'n ymateb i anghenion y gymuned ac sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae creu lleoedd yn ymwneud cymaint, os nad mwy, â'r broses a'r ffordd o wneud pethau ag y mae â'r datblygiad sy'n deillio o hynny. Mae'n golygu cynnwys y gymuned leol (gan gynnwys busnesau) yn gynnar a sicrhau eu bod yn rhan o'r broses.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru a Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru wedi cyd-gynhyrchu Siarter Creu Lleoedd Cymru a'r Canllawiau Creu Lleoedd cyffredinol a ddylai fod yn sail i Gynlluniau Creu Lleoedd. Mae'r siarter yn nodi chwe egwyddor i lywio ffordd o feddwl yn strategol am greu lleoedd. Dyma'r chwe egwyddor:

- Pobl a'r gymuned
- Lleoliad
- Symudiad
- Defnydd cymysg
- Tir y Cyhoedd
- Hunaniaeth

Gweler **Atoddiad 1** am y testun llawn sy'n cyd-fynd â phob un o'r egwyddorion.

2. Creu lleoedd a chanol trefi

Mae canol trefi yn fannau pwysig sy'n wynebu sawl her ar hyn o bryd. Mae canol trefi sy'n ffynnu yn cyfrannu at gymunedau ffyniannus a'u llesiant, yn ogystal â'r economi. Maent yn defnyddio seilwaith ac adeiladau sy'n bodoli eisoes (asedau hanesyddol/trefnadaeth yn aml). Maent yn gofyn am lefelau uchel o ymwelwyr yn sgil pobl sy'n byw, yn gweithio, yn siopa, yn cymdeithasu, yn astudio, yn diwallu eu hanghenion sylfaenol ac yn treulio amser hamdden ynddynt.

Mae canol trefi bywiog a nodedig yn cefnogi busnesau lleol a chadwyni cyflenwi sy'n helpu i gadw cyfoeth a ffyniant yn yr ardal leol er mwyn cefnogi'r economi leol.

Gall canol trefi helpu i leihau ffordd o fyw sy'n canolbwyntio ar geir ac sy'n anghynaliadwy, yn llai cyfartal, yn hybu arwahanrwydd ac yn lleihau ansawdd yr amgylchedd. Dylai canol trefi fod yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, drwy gerdded a beicio a dylai fod ganddynt ddwysedd uwch o bobl yn byw o fewn 15 munud ar droed i'r canol.





Wrth greu lleoedd ar gyfer canol trefi, dylid ystyried:

- Beth yw anghenion y gymuned o fewn yr anheddiad ehangach a sut gall canol y dref helpu i ddiwallu'r anghenion hyn?
- Beth sy'n wahanol am y dref a sut mae hyn yn cael ei werthfawrogi a'i adlewyrchu yn y profiad o ganol y dref ar hyn sydd ganddo i'w gynnig.
- Pa bwysau ac ergydion y mae canol y dref yn eu hwynebu?
- Pa weithgareddau y gall canol y dref eu cefnogi a fydd yn helpu i ddenu pobl i'w ddefnyddio? Gall hyn gynnwys digwyddiadau a defnyddiau dros dro.
- Pwy sydd â diddordeb mewn buddsoddi yng nghanol y dref a pha gymorth sydd ei angen arnynt i wneud hynny? Fel arall, beth sydd angen ei wneud i wneud canol y dref yn gynnig buddsoddi mwy deniadol?
- Pa grwpiau cymunedol neu fusnesau presennol allai gymryd rhan/gwneud mwy yng nghanol y dref a pha gymorth sydd ei angen arnynt?
- Pwy sy'n byw yng nghanol y dref nawr ac a allai mwy o bobl fyw yno yn y dyfodol?
- Beth yw rôl canol y dref nawr ac yn y dyfodol?
- Pa heriau sy'n wynebu'r dref o ran addasu i'r hinsawdd?
- A yw pobl yn gallu cyrraedd canol y dref a symud o'i gwmpas yn rhwydd ac yn ddiogel drwy ddewis o dulliau teithio?
- Pa elfennau digidol allai gefnogi agweddau ffisegol canol y dref?
- Beth allai fod yn gatalydd ar gyfer newid yng nghanol y dref?
- Pa adeiladau neu dir y sector cyhoeddus sydd ar gael ac y gellid eu defnyddio i sbarduno newid?
- Beth mae partneriaid allweddol eraill yn ei wneud yn barod? Gyda phwy allech chi weithio ar y cynllun creu lleoedd?

3. Pam paratoi Cynllun Creu Lleoedd?

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd yn un o ofynion y rhaglen gyllido Trawsnewid Trefi, sydd â'r nod o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn canol trefi mewn ffordd strategol a chydlynol. Fodd bynnag, ni ddylai Cynlluniau Creu Lleoedd ganolbwyntio ar gyllid Llywodraeth Cymru neu gyllid sector cyhoeddus arall yn unig. Dylent ystyried yr holl gyllid, cyfleoedd buddsoddi yn y sector preifat a'r trydydd sector, a dyfodol hirdymor y dref.

Dylai'r Cynllun Creu Lleoedd ddeillio o broses sy'n cynnwys deall y lle a'i bobl, nodi cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol, a darparu cydlynad strategol ar draws sectorau a disgyblaethau. Dylai'r broses helpu i gysoni gwahanol ffrydiau cyllido mewnol ac allanol, ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, a chael mewnbwn creadigol i lunio dyfodol y dref.

Nid cynhyrchu dogfen hir, loyw yw'r nod, ond cofnodi proses a chrynhoi'r prif ganfyddiadau a fydd yn arwain at weithredu yn y dyfodol. Dylai'r cynllun fod yn glir iawn ynghylch pwy ddylai wneud beth nesaf a beth fydd y canlyniadau disgwyledig. Dylai'r ddogfen fod ar gael i'r holl grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid, a dylai hyn gynnwys ei chynhyrchu yn Gymraeg.





Dylai'r cynllun fod yn gyson â pholisi cynllunio yn ogystal â chynlluniau neu strategaethau allweddol eraill sydd ar waith neu sy'n cael eu datblygu, fel rhai economaidd, cymunedol a thrafnidiaeth.

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd yn wahanol i Gynlluniau Bro. Caiff Cynlluniau Bro eu paratoi gan y gymuned, gan weithio gyda'r awdurdod cynllunio lleol, er mwyn helpu i sicrhau bod cynlluniau ar gyfer dyfodol ardal neu safle datblygu yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol fel canllawiau cynllunio atodol. Os oes Cynllun Bro eisoes yn bodoli neu ar y gweill, dylai Cynllun Creu Lleoedd ystyried hyn ac integreiddio canfyddiadau'r Cynllun Bro yn hytrach nag ailadrodd unrhyw waith sydd eisoes wedi'i wneud. Mewn rhai achosion, efallai na fydd angen Cynllun Creu Lleoedd os yw'r Cynllun Bro yn ymdrin â'r holl agweddau perthnasol.

Yn ogystal â'r nod cyffredinol o gefnogi canol trefi ffyniannus, dylid hefyd ystyried y manteision a'r canlyniadau ehangach y gallai'r broses creu lleoedd eu cyflawni. Gall hyn gynnwys:

- Iechyd a llesiant y gymuned
- Economi gylchol
- Datgarboneiddio
- Ymateb ac addasu i'r hinsawdd
- Addysg
- Lleihau anghydraddoldeb
- Y Gymraeg
- Tai fforddiadwy

4. Beth yw Cynllun Creu Lleoedd?


Mae Cynllun Creu Lleoedd...	Nid yw Cynllun Creu Lleoedd...
Yn gyfannol - yn ystyried pob agwedd ar le	Yn ymwneud â manwerthu, tir y cyhoedd neu un mater yn unig
Yn gosod gweledigaeth gyffredin y gall pawb weithio tuag ati	Yn canolbwyntio ar gyllid Trawsnewid Trefi yn unig
Yn adnabod beth sy'n unigryw am le	Yr un fath ar gyfer pob tref
Yn rhoi pobl a'r gymuned yn gyntaf	Yn ymwneud ag adeiladau/palmentydd yn unig
Wedi'i ddatblygu gyda phobl y lle	Yn cynnwys syniadau generig neu wedi'u datblygu o bell
Yn cwmpasu cyflawni a llywodraethu	Yn rhoi syniadau ar gyfer prosiect heb gynllun cyflawni
Yn rhoi sylw i <i>anghenion</i> y lle	Yn rhestr ddymuniadau
Yn nodi cyfleoedd go iawn	Yn rhestr o bethau 'y gellid eu gwneud'
Yn ddogfen fyw, hyblyg	Yn ddogfen statig ar silff
Yn gam tuag at hunaniaeth fwy nodedig i'r dref	Yn brandio lle

Dylai'r cynllun gynnwys dogfen gryno sy'n hawdd ei darllen ac y mae'n hawdd dod o hyd i ddeunydd perthnasol ynddi. Nid oes angen i'r holl ddeunydd cefndir fod yn y cynllun, ond dylid cael crynodeb o'r broses a'r canfyddiadau allweddol. Efallai y bydd yn briodol cynnwys rhywfaint o wybodaeth fasnachol sensitif mewn dogfen ar wahân.

Efallai y bydd nifer o gynulleidfaoedd ar gyfer Cynllun Creu Lleoedd, fel cyllidwyr, buddsoddwyr, adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, a'r cyhoedd. Dylid ystyried pa ddeunydd a gynhyrchir ac ar gyfer pwy. Dylai'r ddogfen allu cael ei haddasu a'i diweddarau dros amser wrth i bethau newid.

5. Proses

Bydd y broses o ddatblygu Cynllun Creu Lleoedd yn amrywio o dref i dref yn dibynnu ar angen lleol, amodau, gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli, cyfansoddiad tîm adfywio'r awdurdod lleol a nod y broses. Dylai meddwl yn gynnar am y broses fod yn sail i gynnwys y cynllun. Ni ddylid diystyru'r broses o gynhyrchu'r cynllun, a photensial hyn i weithredu fel proses o ddod i gonsensws ynghylch cyfeiriad y daith.



Dylid ystyried yr agweddau canlynol wrth benderfynu ar y broses ar gyfer pob canol tref:

- Archwilio'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd gennych eisoes er mwyn canfod bylchau.
- Deall a chydlynu buddsoddiad ar draws yr awdurdod lleol, ee tai, addysg, iechyd, trafnidiaeth.
- Casglu data a fydd yn helpu i fesur newid dros amser, ee nifer yr ymwelwyr, swyddi gwag, amser aros, gwariant, dulliau teithio.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd yn gynnar ac yn barhaus er mwyn casglu gwybodaeth a fydd yn helpu i ddeall y lle ac i flaenoriaethu ymyriadau posibl.

- Digwyddiadau/defnyddiau cyfnod byr a mentrau dros dro i helpu i brofi syniadau ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid – gan gynnwys busnesau, grwpiau cymunedol, tîrfeddianwyr, cyrff cyhoeddus eraill a sefydliadau trydydd sector – i ganfod anghenion, cyfleoedd a phartneriaid posibl i gyflawni prosiectau.
- Yr amser a dreulir yn y lle i ddeall sut mae'n gweithio a ble mae'r problemau.
- Llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth gydag astudiaethau penodol a allai gynnwys:
 - Tueddiadau economaidd-gymdeithasol a thueddiadau'r farchnad.
 - Y ddarpariaeth ddiwylliannol bresennol.
 - Trafnidiaeth a symud.
 - Dadansoddi dylunio trefol.
 - Cyflwr adeiladau.
 - Y sefyllfa ddigidol.

Lle ceisir adnoddau allanol ychwanegol i helpu i gwblhau'r Cynllun Creu Lleoedd, dylai briff clir nodi'r hyn sy'n ofynnol. Mae rhagor o ganllawiau ar ysgrifennu briffiau ar gael yn **Atoddiad 2**.

Gellid strwythuro'r broses ddadansoddi yn unol â'r chwe egwyddor creu lleoedd yn y siarter. Mae rhywfaint o wybodaeth am hyn ar gael yn **Atodiad 3**.

6. Cynnwys a strwythur

Bydd cynnwys Cynllun Creu Lleoedd yn amrywio yn dibynnu ar y broses a'r nodau. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r hyn y *gellid* ei gynnwys yn y cynllun canlyniadol ond dylid ei deilwra i amgylchiadau penodol. Nid oes angen i'r ddogfen derfynol gynnwys yr holl wybodaeth a gesglir drwy'r broses ond yn hytrach dylai ddarparu crynodeb o'r prif bwyntiau a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y cynllun.

Cyflwyniad

- Bwriad y Cynllun Creu Lleoedd – nod y ddogfen.
- Sut a phryd y cafodd ei baratoi, y cyfnod y rhagwelir y bydd yn ei gwmpasu, yr ardal ddaearyddol y canolbwyntir arni.
- Pwy yw'r gynulleidfa a beth yw'r negeseuon allweddol ar eu cyfer – hynny yw, y cyhoedd, darpar fuddsoddwyr, grwpiau cymunedol, ffrydiau cyllido penodol, yr awdurdod lleol yn ehangach.

Cyd-destun

- Perthynas â threfi eraill yn yr ardal/rhanbarth.
- Tueddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Cyd-destun polisi, strategaethau cyfredol, prosiectau sylweddol parhaus neu rai sydd ar y gweill.
- Prosiectau allweddol y tu hwnt i ganol y dref ond sy'n berthnasol iddo.



Deall y lle (gweler hefyd y canllawiau dadansoddi yn Atodiad 3)

- Beth sydd eisoes yn digwydd/ar y gweill?
- Crynodeb o ddata allweddol
- Crynodeb o'r canfyddiadau am weithgarwch y lle – pobl, cymuned, busnesau
- Crynodeb o'r canfyddiadau am ffurf ac adeiladwaith y lle
- Crynodeb o'r canfyddiadau am ystyr y lle
- Rhai cwestiynau allweddol:
 - Beth yw'r risgiau yn y dyfodol, ee mwy o ddatblygiadau y tu allan i'r dref, llifogydd yn y dyfodol ac ati?
 - Beth fyddai'n digwydd pe na baech chi'n gwneud dim?
 - Beth sy'n unigryw i'r lle hwn? Pa faterion sy'n gyffredin i lefydd eraill?
 - Beth yw diben y dref? Pwy mae'n ei wasanaethu, pa rôl mae'n ei chwarae?
 - Beth mae pobl yn gallu ei wneud yn y dref a beth dydyn nhw ddim yn gallu ei wneud?
 - Beth yw'r anghenion mwyaf brys?
 - Pwy sydd eisieu gwneud rhywbeth?

Arbrofion ac ymyriadau dros dro

- Crynodeb o ddigwyddiadau, ymyriadau ac arbrofion a gynhaliwyd fel rhan o broses y cynllun creu lleoedd a chanfyddiadau hyn.
- Beth wnaethoch chi a beth ddysgoch chi?

Crynodeb o'r angen a'r cyfle


- Crynowch y dadansoddiad i roi crynodeb o anghenion allweddol y lle a'r cyfleoedd go iawn i newid y lle mewn ffordd gadarnhaol.
- Angen = problemau sylfaenol sy'n wynebu pobl y lle
- Cyfle = rhagolygon go iawn ar gyfer newid, ee busnes sy'n awyddus i fuddsoddi, cyfle cyllido, grŵp cymunedol sy'n awyddus i ymgymryd â phrosiect newydd/ehangu, arbrofion sydd wedi gweithio ac y gellid eu hehangu/cyflwyno.



Gweledigaeth, strategaeth ac amcanion wedi'u targedu

- Gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cyfnod y cynllun a ddatblygir ar y cyd â'r gymuned a rhanddeiliaid. Rhaid i'r weledigaeth fod yn benodol i'r lle, ei anghenion a'i gyfleoedd ac i amserlen y cynllun.
- Crynodeb o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer sut i fynd ati i lunio strategaeth ar gyfer y dref a'r dull gweithredu a ddewiswyd.
- Nifer fach o amcanion penodol a fydd yn arwain y broses o wneud penderfyniadau a buddsoddi yn y dref dros gyfnod y cynllun er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth. Dylid asesu unrhyw ymyriadau neu fentrau arfaethedig yn erbyn y rhain i brofi eu bod yn addas.
- Defnyddio'r chwe egwyddor creu lleoedd i strwythuro/arwain y strategaeth.

Matrics Blaenoriaethu Prosiectau



Gall defnyddio matrics sy'n plotio pa mor hawdd yw cyflawni prosiect yn erbyn lefel yr effaith a ragwelir fod yn ffordd ddefnyddiol o flaenoriaethu prosiectau.

Methiant o'r cychwyn – bydd angen adnoddau sylweddol ar y prosiectau hyn i'w rhoi ar waith ond ni fyddant yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r anghenion a nodir nac i ychwanegu gwerth at y dref.

Gwerth cyfyngedig – mae'r rhain yn hawdd eu gweithredu ond nid ydynt yn gwneud llawer i fynd i'r afael â'r problemau. Gallant dynnu sylw oddi ar ymyriadau mwy ystyrlon.

Camau cyflym ymlaen – mae'r rhain yn gwneud gwahaniaeth i'r lle yn gyflym ac maent yn lle da i ddechrau wrth i brosiectau eraill gael eu datblygu.

Newid hirdymor cadarnhaol – mae'n cymryd amser ac adnoddau i roi'r rhain ar waith ond byddant yn werth chweil oherwydd y gwerth a ddaw yn eu sgil.

Mae cyfuniad o gamau cyflym ymlaen a newid hirdymor cadarnhaol yn aml yn sail dda i strategaeth o fewn y cynllun.

Rhoi ar waith

- Nodi ymyriadau, mentrau a phrosiectau y gellir eu gweithredu o fewn cyfnod y cynllun ac sy'n cyfrannu at yr amcanion a'r weledigaeth. Mewnbwn arbenigol ar brosiectau allweddol lle bo angen, ee y farchnad/economeg, dylunio trefol, pensaernïaeth, digidol. Darluniwyd i lefel ddangosol.
- Dylai ymyriadau posibl gynnwys digwyddiadau, newidiadau i lywodraethu/trefniadaeth, cynllunio, materion cyllidol, economaidd a diwylliannol, a materion sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac ati, yn ogystal â phrosiectau ffisegol.
- Rhaid rhoi'r ymyriadau a'r prosiectau mewn trefn fel ei bod yn glir beth ddylid ei wneud yn gyntaf a pha gamau y dylid eu cymryd. A oes un peth y mae'n bwysig ei wneud yn iawn yn gyntaf? Beth allai fod yn gam cyflym ymlaen?
- Dangoswch brosiectau allweddol ar gynllun i ddangos sut maen nhw'n ymwneud â'i gilydd ond gan gydnabod y gall llawer o ymyriadau fod yn rhai nad ydynt yn ymwneud â lleoliad penodol.
- Dylai pob prosiect nodi - rhagofynion (hynny yw, beth ddylai ddod cynt), partneriaid arweiniol, elfennau hanfodol i'w cyflawni, amcangyfrif o'r gost, cyfleoedd cyllido, rôl yr awdurdod lleol, amserlenni, a'r camau nesaf.
- Dylai'r cynllun nodi'r manteision a ragwelir o weithredu'r cynigion a sut maent yn mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd.
- A ddylid newid/dylanwadu ar unrhyw bolisi, megis adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol? A oes angen canllawiau pellach fel cod dylunio?
- Cynllun gweithredu yn amlinellu pwy ddylai wneud beth nesaf.

Profi a mireinio

- Sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro? Pa adnoddau sydd eu hangen i wneud hynny? Beth fydd yn cael ei fesur i olrhain cynnydd?
- Sut a phryd fydd y weledigaeth a'r amcanion yn cael eu hadolygu? ee, unwaith bob 6 mis
- Pa arbrofion pellach sydd eu hangen?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda ac a ddylid parhau â hyn/ei ehangu?
- Beth sydd heb weithio yn ôl y disgwyl a beth ddylid ei addasu?

Atoddiad 1

Siarter Creu Lleoedd Cymru

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei datblygu mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ystod eang o fuddiannau. Mae'r Siarter yn adlewyrchu ymrwymiad cyfunol ac unigol y sefydliadau hyn i gefnogi datblygu lleoedd o ansawdd uchel ar draws Cymru er budd cymunedau.

Wrth lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, rydw i/mae fy sefydliad yn cytuno i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd ym mhob maes perthnasol o'm/o'n gwaith, a hyrwyddo'r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes:

Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pob person ar y cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu ac/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafndiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

Defnyddiau cymysg

Mae gan lleoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

Atoddiad 2

Ysgrifennu Briffiau

Paratowyd y nodyn canlynol i helpu i ddatblygu briff er mwyn cynhyrchu Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi. Mae'r canllawiau hyn yn gyffredinol ac fe gydnabyddir bod pob tref yn wahanol ac y bydd yr amgylchiadau'n wahanol ar draws gwahanol awdurdodau, felly mae angen eu cymhwyso mewn ffordd sy'n addas.

Mewn rhai achosion efallai y byddwch yn chwilio am dîm o ymgynghorwyr i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gynllun creu lleoedd; mewn achosion eraill efallai y byddwch yn chwilio am fewnbwn penodol i'r broses gyda mwy o'r gwaith o gydlynu a chynhyrchu'r cynllun yn digwydd yn fewnol. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n bwysig mynd ati yn gyntaf i fapio eich proses, pa wybodaeth sydd gennych eisoes a lle mae angen gwybodaeth, arbenigedd neu gapasiti ychwanegol penodol arnoch. Gweler y canllawiau ategol ar gynnwys cynlluniau creu lleoedd wrth i chi ystyried beth rydych yn anelu at ei gynhyrchu a beth fydd y broses. Mae'r broses yr un mor bwysig â'r cynnyrch gorffenedig.

Dylid ystyried y pynciau canlynol wrth ddatblygu'r briff:

Cefndir

Rhowch gefndir a chyd-destun y cynlluniau creu lleoedd. Mae'n ddefnyddiol darparu crynodeb o'r wybodaeth sydd gennych am y dref yn ogystal â'r cyd-destun polisi a strategaeth. Nodwch beth rydych chi'n ei wybod yn barod a pha gwestiynau roeddech chi'n ceisio eu hateb wrth ddatblygu'r cynllun. Mae'n bwysig bod y cynllun creu lleoedd yn eich symud ymlaen o'r cynlluniau sydd eisoes ar waith yn hytrach na'u hailadrodd neu eu dyblygu. Er nad oes angen darparu'r holl wybodaeth sy'n bodoli eisoes yng ngham y briff, byddai'n ddefnyddiol i dimau bidio ddeall beth sydd ar gael a pha wybodaeth y bydd angen ei chasglu drwy'r broses o ddatblygu'r cynllun.

Nodi'r mewnbwnau gofynnol

Byddwch mor benodol â phosibl ynghylch pa sgiliau, gwybodaeth a chapasiti sydd gennych eisoes a pha fewnbwn allanol sydd ei angen arnoch. Ewch ati i ymgysylltu'n fewnol ar draws adrannau gan gynnwys iechyd, addysg, trafndiaeth, priffyrdd, tai, parciau er mwyn helpu i ddatgelu a chydlynu cynlluniau a chynigion presennol a chysoni gweithgarwch â'r cynllun.

Camau

Gallai rhannu'r comisiwn yn gamau fod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddatblygu'r cynllun yn cael sylw a bod y timau bidio'n gwybod beth a ddisgwylir ganddynt.

Y cam cyntaf fydd y dadansoddiad, a fydd yn cynnwys dadansoddiad bwrdd gwaith, arsylwi, ac adborth o'r broses ymgysylltu. Os ydych chi'n gwybod pa wybodaeth a data penodol yr hoffech i'r ffin penodedig eu casglu, nodwch hynny, ond os nad ydych chi, byddwch yn glir bod angen dadansoddiad a dealltwriaeth drylwyr o'r materion allweddol yn y dref. Dylai'r dadansoddiad geisio deall y berthynas rhwng trefi yn y sir/rhanbarth yn ogystal â'r agweddau sy'n eu gwneud yn unigryw. Agwedd arall ar y dadansoddiad efallai y byddwch yn dymuno ei sicrhau yw cael trosolwg o hanes y trefi, sut y cawsant eu llunio dros amser, a beth y gallai hyn ei awgrymu ar gyfer dyfodol y treflun. Bydd hefyd yn bwysig adolygu symudiadau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio ac ar gyfer gwahanol bellteroedd teithio. Dylai'r broses ddadansoddi arwain at grynodedb o'r prif anghenion a chyfleoedd i'r dref (gweler y canllawiau ar gynnwys y cynllun hefyd).

Byddai'r camau dilynol ar ôl y dadansoddiad yn cynnwys profi senarios, datblygu gweledigaeth gyffredin, nodi prosiectau a chynllun gweithredu/rhoi ar waith.

Cynnwys

Mae cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid yn agwedd hanfodol ar y broses. Dylai fod yn ofynnol cynnal proses gychwynnol i fapio rhanddeiliaid a chael proses ymgysylltu glir. Wrth gynnwys pobl, dylai'r camau cyntaf helpu i feithrin dealltwriaeth o'r lle, ceisio nodi partneriaid posibl ar gyfer cyflawni'r cynllun a chanfod unrhyw gyfleoedd cudd a allai fod yn y lle, cyn unrhyw ymgynghoriad ar gynigion sy'n deillio o'r cynllun ei hun.

Gellir defnyddio ymgysylltu digidol i gefnogi ymgysylltu wyneb yn wyneb. Dylid cynnwys dull ac adnoddau ar gyfer prosesu'r wybodaeth a gesglir yn y briff.

Ystyriaethau pwnc

Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol nodi'r ystod o agweddau y gallai fod angen eu hystyried yn y cynllun. Er enghraifft, efallai y byddwch am i'r ffin creu lleoedd ystyried cyfleoedd datblygu eiddo, cymorth busnes, gwella adeiladau, digwyddiadau, gwaith tir y cyhoedd, technoleg ddigidol a/neu ymyriadau trafniadaeth. Byddai hyn wedyn yn sail i'r gymysgedd o sgiliau a phrofiad y dylai'r ffin ymgynghorol eu cyflwyno mewn ymateb i'r briff. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â bod yn rhy gyfarwyddol ar hyn o bryd, oherwydd nid yw gofynion y cynllun creu lleoedd mewn ymateb i'r dadansoddiad yn hysbys eto, a byddant yn cael eu datblygu drwy'r broses o baratoi'r cynllun. Dylid cael cwmpas ar gyfer proses ailadroddol.

Allbwn

Byddwch mor glir â phosibl ynghylch pa allbynnau yr hoffech eu cael o'r broses. Gall hyn gynnwys y canlynol: crynodeb o'r dadansoddiad o ganol y dref yng nghyd-destun yr aneddiadau cyfan, crynodeb o'r gwaith o brofi opsiynau a syniadau, gweledigaeth gyffredin ar gyfer dyfodol y dref, a rhestr wedi'i threfnu a'i blaenoriaethu o brosiectau ac ymyriadau a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ar gyfer y prosiectau a'r ymyriadau hyn, rhowch wybodaeth allweddol ynghylch pwy fydd yn arwain y prosiect, lle gellir cael cyllid, pa bartneriaid fydd yn cymryd rhan, y berthynas â phrosiectau ac ymyriadau eraill, ac amlinelliad o'r costau.

Ar gyfer prosiectau allweddol y gallai'r awdurdod lleol eu datblygu, efallai y byddai'n briodol gofyn am baratoi briffiau ar gyfer datblygu'r prosiectau er mwyn mynd â nhw ymlaen i'r cam nesaf. Dylai fod yn glir bod y weledigaeth a'r prosiectau a nodir wedi'u cyfyngu i'r rhai a allai fod yn gymwys i gael cyllid gan y sector cyhoeddus a dylent hefyd gynnwys y rhai a allai gael eu darparu gan y sector preifat, cymdeithasau tai, sefydliadau'r trydydd sector neu'n fwy cyffredinol gan yr awdurdod lleol.

Ystyriwch a nodwch pa fformat yr hoffech i'r cynllun terfynol fod ynddo. Gall fod yn un ddogfen neu'n nifer o ddogfennau wedi'u hanelu at wahanol gynulleidfaoedd. Efallai y bydd angen neu awydd am adnoddau ar y we hefyd.

Strwythur fîm

Nodwch sut y bydd y fîm ymgynghorol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, gan gynnwys y prif bwynt cyswllt ac unigolion allweddol eraill. A fyddwch chi'n cael cyfarfodydd diweddarau rheolaidd? Faint o fewnbwn fydd yr awdurdod lleol yn ei gael wrth gynhyrchu'r cynllun? Beth yw'r broses gymeradwyo ar gyfer symud o un cam i'r nesaf? Beth fydd yr awdurdod lleol yn ei wneud gyda'r cynllun ar ôl iddo gael ei gynhyrchu? Pwy sy'n cymryd perchnogaeth dros y cynllun creu lleoedd?

Gofynnwch am strwythur fîm gan y timau bidio, gan gynnwys arweinydd fîm cyffredinol a phwynt cyswllt o ddydd i ddydd. Mae'n debygol y bydd angen ystod o arbenigedd i gwblhau'r cynllun felly byddwch yn glir a fyddwch yn penodi mewnbwn ar wahân neu'n chwilio am ymgynghorydd arweiniol i greu ei dîm ei hun. Os mai'r ail o'r rhain fydd yn digwydd, mae'n bwysig deall sut maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd yn y gorffennol a sut byddan nhw'n cydlynu ac yn cyfathrebu fel fîm a gyda chi fel y cleient. Gwnewch yn siŵr bod yr unigolion hynny a nodir yn y cyflwyniad yn gweithio ar y prosiect.

Cyllideb

Nodwch y gyllideb/ystod ar gyfer cynhyrchu'r cynllun. Os ydych chi'n comisiynu gwaith ar gyfer mwy nag un canol tref, byddwch yn glir a fyddant yn cael eu comisiynu gyda'i gilydd neu ar wahân. Byddwch yn glir ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gyllideb.

Rhaglen

Nodwch unrhyw ddyddiadau cau gofynnol a'r rhaglen gyffredinol a awgrymir, gadewch le i gael adborth a mewnbwn gan y bidwyr. Dylai'r rhaglen ganiatáu i amser gael ei ddefnyddio'n effeithlon, gyda cherrig milltir a chyfarfodydd interim wedi'u nodi'n glir. Fodd bynnag, ni ddylid rhuthro a dylid caniatáu digon o amser ar gyfer dadansoddi, ymgysylltu ac ymateb yn greadlgol i'r heriau a nodir.

Asesu'r broses bidio

Nodwch beth sydd ei angen mewn ymateb i'r briff, gan gynnwys terfynau tudalennau/geiriau, fel ei bod yn haws cymharu ymatebion tebyg am debyg.

Dylai'r broses sgorio ar gyfer ystyried cyflwyniadau sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ansawdd nag ar y gost.

Bod yn glir

Bydd briff da yn benodol, gan nodi'n glir yr hyn sydd ei eisiau ac nad oes ei eisiau arnoch – byddwch yn agored am yr hyn sydd ei angen a'r hyn nad oes ei angen. Dylai fod yn glir, yn gryno ac yn fanwl gywir. Dylai'r briff fod yn gymesur o ran hyd a lefel y manylion, gan adlewyrchu maint/cyllideb ac arwyddocâd y prosiect. Dylid ystyried trefn yr wybodaeth a gyflwynir yn y briff – ee gweithio o'r lefel strategol i lawr i'r manylion, cadw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y comisiwn ar wahân i ofynion y broses dendro, a chysoni trefn y gweithgareddau gofynnol â threfn y broses.

Rheoli disgwyliadau

Bydd briff gwael yn cynhyrchu set o ofynion sy'n afrealistig ar gyfer cyllideb y prosiect. Dylai'r fîm cleientiaid fod â syniad clir o'r hyn sy'n hanfodol a sicrhau bod y gyllideb yn ddigonol i dalu am hyn.

Atoddiad 3

Dadansoddiad

1	Deall	Nod
Pobl a'r gymuned (dylai ymgysylltu/cynnwys gael eu plethu drwy'r broses gyfan)	<ul style="list-style-type: none"> — Demograffeg — Proffil economaidd — Anghenion y boblogaeth — Rhwydweithiau cymdeithasol — Defnydd yn ystod y dydd/min nos — Gweithgarwch cymunedol — Bywyd ar y stryd — Galw am le, cyfleusterau a chefnogaeth nad yw'n cael ei fodloni — Ystadegau troseddu 	<ul style="list-style-type: none"> — Amrywiol — Stiwardiaeth/cynnwys — Cymdogol — Cyfeillgar — Croesawgar — Diwallu anghenion pobl — Lleoedd i ryngweithio

2	Deall	Nod
Lleoliad	<ul style="list-style-type: none"> — Cyd-destun rhanbarthol — Perthynas â threfi eraill — Nodweddion daearyddol unigryw, ee topograffeg, cyrff dŵr 	<ul style="list-style-type: none"> — Rôl glir o fewn y rhanbarth — Dathlu nodweddion unigryw lleoliad

3	Deall	Nod
Symudiad	<ul style="list-style-type: none"> — Dalgylch 15 munud i gerddwyr — Teithio llesol — Trafnidiaeth gyhoeddus — Data traffig — Ffyrdd — Rhaniadau dulliau teithio — Parcio – swm, defnydd — Symudedd a rennir 	<ul style="list-style-type: none"> — Modd cerdded — Cysylltiedig — Darllenadwy — Hygyrch — Hwylus

4	Deall	Nod
Defnydd cymysg	<ul style="list-style-type: none"> — Perchnogaeth busnesau lleol — Patrymau defnyddio tir (gan gynnwys mannau uwchben siopau) — Perchnogaeth eiddo — Gwerthoedd eiddo — Defnyddiau yn ystod y dydd/ min nos — Economi — Swyddi gwag — Digwyddiadau — Dwysedd y datblygiad 	<ul style="list-style-type: none"> — Egniol — Defnyddiol — Cynaliadwy — Hwyllog — Brodorol — Arbennig

5	Deall	Nod
Tir y Cyhoedd	<ul style="list-style-type: none"> — Microhinsawdd — Cyflwr adeiladau — Ansawdd a defnydd mannau cyhoeddus — Glendid — Canfod y ffordd — Nifer yr ymwelwyr — Mannau agored/gwyrdd 	<ul style="list-style-type: none"> — Egniol — Diogel — Glân — Gwyrdd — Modd cerdded — Modd eistedd — Deniadol — Nodedig — Bioamrywiol

6	Deall	Nod
Hunaniaeth	<ul style="list-style-type: none"> — Hanes — Straeon — Iaith — Cymunedau 	<ul style="list-style-type: none"> — Nodedig — Parchus — Cynhwysol — Ystyrlon





Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales